Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




**Rhifyn 342 (Cymru) - 14 Mehefin 2023**

## Deddf Etholiadau: diweddariad canllawiau

Yn unol â’n dull o gefnogi Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyda rhoi cam cyntaf newidiadau’r Ddeddf Etholiadau ar waith, rydym erbyn hyn wedi cyhoeddi ail ddogfen canllawiau ystyriaethau allweddol i lywio paratoadau ar gyfer y cam nesaf o newidiadau.

Mae’r rhain yn cynnwys pleidleisio absennol, etholwyr tramor a newidiadau i etholfraint dinasyddion yr UE, yn ogystal â newidiadau i drin pleidleisiau post a chyfrinachedd, enwau a ddefnyddir yn gyffredin a throseddau dylanwad gormodol a bygwth.

Mae'r canllawiau hyn yn seiliedig ar ein dealltwriaeth gyfredol o gynlluniau gweithredu Llywodraeth y DU. Mae manylion yr is-ddeddfwriaeth yn dal i fod heb eu cadarnhau, ac felly mae yna nifer o feysydd lle mae’r canllawiau yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o’r polisi neu’r is-ddeddfwriaeth ddrafft.

Byddwn yn diweddaru’r canllawiau cynllunio yn ôl yr angen fydd y manylion wedi’u cadarnhau, a byddwn yn rhoi diweddariad i chi ar unrhyw newidiadau mewn rhifynnau o’r Bwletin Gweinyddu Etholiadol yn y dyfodol.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi ‘r canllawiau a’r adnoddau craidd diweddaredig y bydd eu hangen arnoch i’ch cynorthwyo gyda rhoi’r newidiadau ar waith.

Mae’r rheoliadau drafft ar gyfer y newidiadau i bleidleisio absennol wedi’u cyhoeddi ac rydym yn gweithio ar ddiweddaru ein canllawiau gyd manylion y ddeddfwriaeth honno. Ein bwriad yw cyhoeddi’r canllawiau hyn erbyn dechrau mis Medi cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym ar 31 Hydref.

Byddwn yn rhoi rhagor o fanylion am gyhoeddi diweddariadau i’n canllawiau ar gyfer y darpariaethau sydd ar ôl mewn Bwletin yn y dyfodol.

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Deddf Etholiadau: diweddariad canllawiau**

Gwybodaeth a dolen i ddogfen ystyriaethau allweddol newydd i gefnogi Swyddogion Canlyniadau gyda chynllunio ar gyfer cam nesaf newidiadau’r Ddeddf Etholiadau.

**Adnoddau canfas 2023**

Gwybodaeth a dolen i adnoddau ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol i’w defnyddio i hyrwyddo'r canfasio yn eu hardal.

**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ar hyn, neu os ydych angen unrhyw gefnogaeth bellach, cysylltwch â gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

## Adnoddau canfas 2023

Rydym wedi datblygu nifer o adnoddau i helpu awdurdodau lleol a Swyddogion Cofrestru Etholiadol i hyrwyddo'r canfas blynyddol yn eu hardal.

Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys:

- Graffigau cyfryngau cymdeithasol
- Templedi negeseuon cyfryngau cymdeithasol
- Templed datganiad i'r wasg

Fel y gwnaethom nodi ym Mwletin 340, rydym hefyd wedi cynhyrchu mewnosodiad A5 y gallwch ei gynnwys yn eich cyfathrebiadau canfas i godi ymwybyddiaeth o'r gofynion ID pleidleisiwr ymhlith eich trigolion.

Mae'r daflen yn y fan hon ar ein gwefan.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2023

**Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.**